Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Talysarn
# Talysarn
# Caernarfon
# Gwynedd
# LL54 6HR

## Dyddiad yr arolygiad:  Ionawr 2017

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 04/04/2017**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Talysarn ym mhentref gwledig Talysarn yng Ngwynedd. Mae'n darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 11 oed. Cymraeg yw iaith bob dydd yr ysgol a phrif gyfrwng y dysgu a'r addysgu. Fe addysgir Saesneg yn ffurfiol yng nghyfnod allweddol 2. Daw oddeutu 50% o'r disgyblion o gartrefi ble siaredir Cymraeg, ac ychydig iawn o ddisgyblion sydd o gefndir ethnig lleiafrifol.

Derbynnir plant i'r ysgol, yn amser llawn, yn ystod y tymor maent yn bedair oed. Yn ystod yr arolygiad, roedd 102 o ddisgyblion ar y gofrestr gan gynnwys 15 yn y dosbarth meithrin. Fe'u haddysgir gan dair athrawes amser llawn a dwy ran-amser.

Mae oddeutu 25% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae 25% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol. Mae'r ffigurau hyn ychydig yn uwch na chanrannau Cymru. Mae ychydig iawn o ddisgyblion â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Penodwyd y pennaeth ym mis Medi 2009. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn Chwefror 2010.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Talysarn yn 2016-2017 yn £4,749. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Gwynedd yw £10,404 a'r lleiafswm yw £3,089. Mae Ysgol Gynradd Talysarn yn yr 20fed safle allan o'r 93 ysgol gynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Da |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Rhagorol |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, gan alw i gof ddysgu blaenorol yn dda
- safon medrau allweddol y disgyblion yn dda a bron bob un yn hyderus ddwyieithog erbyn diwedd cyfnod allweddol 2
- safonau ymddygiad yn uchel a rhan fwyaf y disgyblion yn frwdfrydig ac yn awyddus i ddysgu
- y disgyblion yn cyfrannu'n ddeallus at yr hyn y maent yn ei ddysgu ac yn trafod yn aeddfed sut i wella eu gwaith
- athrawon yn cynllunio'n ddychmygus i danio brwdfrydedd ac i ysgogi'r disgyblion
- yr addysgu yn gyson dda
- yr ysgol yn gymuned hapus ac iddi ethos cartrefol a chynhwysol lle mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel a hapus ac yn cael eu trin â pharch

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon ar gyfer gwella yn rhagorol oherwydd bod:

- gan y pennaeth weledigaeth gadarn ac ymroddiad cryf i godi safonau a chynnig profiadau ysgogol i bob disgybl
- y pennaeth yn rhannu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus iawn gyda'r holl staff, disgyblion, rhieni a llywodraethwyr
- arweinwyr a holl aelodau'r staff yn dangos ymrwymiad cryf i ddatblygu a hyrwyddo gwelliannau parhaus a chynaliadwy trwy gynllunio manwl
- diwylliant o hunanarfarnu parhaus sy'n canolbwyntio'n gadarn ar ddeilliannau disgyblion, wedi gwreiddio'n ddwfn ym mywyd bob dydd yr ysgol
- cydweithio effeithiol iawn gydag ystod o bartneriaethau yn cael effaith gadarnhaol ar les a chyflawniad disgyblion
- staff ac adnoddau ariannol yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi blaenoriaethau ar gyfer codi safonau ac ehangu profiadau

## Argymhellion

A1 Codi safonau sillafu yn y Gymraeg a'r Saesneg

A2 Sicrhau cysondeb yn ansawdd llawysgrifen a chyflwyniad gwaith y disgyblion ar draws yr ysgol

A3 Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 ddatblygu eu medrau Saesneg ar draws y cwricwlwm

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae asesiadau sylfaen disgyblion ar fynediad i'r ysgol yn dangos bod gan y mwyafrif fedrau sylfaenol mewn rhifedd sy'n briodol i'w hoed. Fodd bynnag, mae medrau iaith oddeutu hanner y disgyblion yn is na'r disgwyl. Daw tua hanner y disgyblion o gartrefi di-Gymraeg; er hynny, mae eu medrau llafar Cymraeg yn datblygu'n fuan iawn. Mae rhan fwyaf y disgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dwyn i gof ddysgu blaenorol yn dda ac yn defnyddio a chymhwyso'u medrau mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd yn llwyddiannus iawn.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwrando'n astud, yn siarad yn eglur ac yn mynegi eu syniadau'n hyderus. Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn cyfathrebu'n glir yn y ddwy iaith ac maent yn awyddus i gynnig atebion, sylwadau a mynegi barn wrth siarad am eu gwaith. Maent yn dangos balchder at yr iaith Gymraeg ac yn dewis defnyddio'r iaith i gymdeithasu amser chwarae yn ogystal ag yn eu gwersi. Ar frig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn cyrraedd safon dda o ddwyieithrwydd ac yn newid yn rhwydd o un iaith i'r llall wrth drafod eu gwaith.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer yn darllen yn rhugl gyda mynegiant, gan ddefnyddio strategaethau addas i ddarllen geiriau anghyfarwydd. Mae llawer yn dangos diddordeb yn yr hyn maent yn ei ddarllen gan drafod cynnwys eu llyfr yn wybodus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer yn darllen gyda chywirdeb a rhuglder yn Gymraeg a Saesneg. Maent yn defnyddio eu medrau'n briodol wrth gywain gwybodaeth yn eu gwaith ymchwiliol, er enghraifft am barciau cenedlaethol a phontydd. Fodd bynnag, nid yw gwybodaeth disgyblion y ddau gyfnod allweddol, am wahanol awduron, yn gadarn.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu ystod gynyddol o frawddegau syml gan ddefnyddio ansoddeiriau ac atalnodi sylfaenol yn gywir. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer yn ysgrifennu'n estynedig wrth gofnodi eu profiadau dysgu ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth ysgrifennu stori am yr Iâr Fach Goch. Mae llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu'n ddeallus i wahanol ddibenion yn Gymraeg a Saesneg, gan ddangos ymwybyddiaeth gadarn o'r gwahanol ffurfiau ysgrifennu, er enghraifft wrth ysgrifennu erthygl papur newydd a phortread o Owain Glyndŵr. Mae'r rhan fwyaf yn dewis geirfa ddiddorol ac yn atalnodi a dechrau paragraffu'n gywir. Erbyn brig yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu darnau estynedig o ansawdd da ar gyfer amrywiaeth o ddibenion a chynulleidfaoedd. Maent yn defnyddio ansoddeiriau, cymariaethau ac idiomau'n hyderus i gyfoethogi'r gwaith ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, anghyson yw ansawdd sillafu, llawysgrifen a chyflwyniad gwaith ar draws yr ysgol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae datblygiad mathemategol rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n gadarn iawn. Gall y rhan fwyaf gasglu gwybodaeth yn llwyddiannus gan drosglwyddo'r wybodaeth honno yn effeithiol i ffurf graff. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn darllen, deall ac ysgrifennu rhifau yn gywir hyd at 100. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio a chymhwyso eu medrau yn effeithiol ar draws y meysydd dysgu, er enghraifft wrth ddatrys problemau arian hyd at bunt wrth werthu blodau. Maent yn defnyddio unedau safonol i fesur hyd wrthrychau mewn centimetrau ac yn adnabod hanner awr wedi, chwarter wedi a chwarter i ar gloc analog a digidol. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o briodweddau siapiau dau a thri dimensiwn.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o strategaethau rhif ac yn eu defnyddion hyderus i ddatrys problemau. Ym Mlwyddyn 3 a 4, maent yn dyfalu pwysau nwyddau, yn cofnodi ac yna'n datrys yn gywir y gwahaniaeth rhwng eu hamcangyfrif ar ddarlleniad y glorian ddigidol. Ym Mlwyddyn 5 a 6, maent yn datrys posau rhifedd cymhleth, ac yn dangos dealltwriaeth dda o dablau, ffracsiynau a chanrannau er mwyn agor cloeon. Gall y rhan fwyaf ddadansoddi data, mesur cynhwysedd ac arwynebedd yn gywir. Maent yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn effeithiol ar draws ystod o bynciau; er enghraifft, mewn gwyddoniaeth, maent yn cofnodi'n fedrus mewn tabl, gan ffurfio graff llinell ynglŷn â faint o eiliadau mae gwahanol bwysau o siwgr yn cymryd i hydoddi.

Mae llawer o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn hyderus ac yn annibynnol at wahanol ddibenion. Maent yn defnyddio meddalwedd yn effeithiol i greu graffiau bloc, er enghraifft am faint o ddisgyblion sy'n hoffi bwyd Eidaleg, ac yn defnyddio rhaglenni prosesu geiriau yn bwrpasol i ychwanegu llun a gwybodaeth am y graff. Mae rhan fwyaf yn rheoli cerbyd symudol yn fedrus i deithio i gastell y brenin yn stori Santes Dwynwen. Gall llawer ddefnyddio codau QR yn ddeallus i ddatrys problemau mewn gêm mathemateg. Mae gan y rhan fwyaf lefel dda o gymhwysedd wrth ddefnyddio'r bysellfwrdd.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau TGCh yn dda. Maent yn cyflwyno gwybodaeth mewn ffyrdd diddorol trwy ddefnyddio amrywiaeth dda o raglenni. Er enghraifft, gall llawer o ddisgyblion ddefnyddio meddalwedd i roi cyflwyniadau ar egwyddorion ymddygiad da ac am fywyd Ann Frank. Mae'r disgyblion hŷn yn fedrus iawn wrth greu taenlenni i drefnu prisiau a gwerthiant mewn siop ac yn dadansoddi'r wybodaeth yn fedrus. Mae'r rhan fwyaf yn hyderus wrth chwilio ar y we am wybodaeth am y gofod a gofodwyr. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygu medrau ymchwiliol a llythrennedd y disgyblion. Mae dealltwriaeth disgyblion o bwysigrwydd e-ddiogelwch yn amlwg.

Dros y blynyddoedd diwethaf, roedd nifer cymharol fach o ddisgyblion (deg neu lai) yn y grwpiau blwyddyn ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 gan yr ysgol yn aml. Gall hyn effeithio'n sylweddol ar berfformiad meincnod yr ysgol o gymharu ag ysgolion tebyg ac o gymharu â chyfartaleddau cenedlaethol.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, dros gyfnod o bedair blynedd, mae perfformiad yr ysgol mewn llythrennedd ar y deilliant disgwyliedig o'i gymharu ag ysgolion tebyg wedi bod yn uwch na'r canolrif mewn tair allan o'r pedair blynedd. Mae perfformiad

mewn mathemateg wedi amrywio rhwng y 50% uwch a'r 50% is. Dros yr un cyfnod, mae perfformiad ar y deilliant uwch mewn llythrennedd a mathemateg wedi bod yn uwch na'r canolrif mewn tair allan o'r pedair blynedd.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod yn uwch na'r canolrif mewn tair allan o'r pedair blynedd ddiwethaf. Dros yr un cyfnod, mae perfformiad ar y lefel uwch mewn Saesneg a Chymraeg wedi bod yn gyson uwch na'r canolrif ond yn is mewn mathemateg a gwyddoniaeth.

Yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2, nid oes gwahaniaeth nodedig rhwng perfformiad disgyblion sydd yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim ac eraill, nac ychwaith rhwng bechgyn a merched.

**Lles: Rhagorol**

Mae bron bob disgybl yn teimlo'n ddiogel ac yn gwerthfawrogi eu bod yn cael cefnogaeth o ansawdd uchel gan oedolion yn yr ysgol. Maent yn hyderus i droi at unrhyw aelod o staff os oes ganddynt bryderon. Mae gan y rhan fwyaf ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta'n iach ac o gadw'n heini.

Mae gwaith y cyngor ysgol i lunio polisi ar ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o beth yw ymddygiad derbyniol wedi cyfrannu'n effeithiol iawn at y safonau ymddygiad uchel gan gyd-ddisgyblion. Mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn foesgar a chwrtais. Maent yn dangos parch a gofal tuag at eu cyfoedion, ac yn gweithio'n hapus a chydwybodol iawn gyda'i gilydd o oedran ifanc. Ar draws yr ysgol, mae lefelau diddordeb, brwdfrydedd ac ymroddiad rhan fwyaf y disgyblion yn dda. Mae'r ffordd y mae disgyblion yn cyfrannu'n ddeallus at yr hyn maent yn ei ddysgu ac yn trafod yn aeddfed am sut i wella eu gwaith yn nodwedd ardderchog.

Mae aelodau'r cyngor ysgol a'r cyngor eco yn frwdfrydig iawn ac yn deall eu bod yn cynrychioli safbwynt disgyblion eraill o fewn cymuned ysgol. Maent yn dangos balchder amlwg yn eu cyfraniad i sawl agwedd o fywyd yr ysgol. Enghraifft dda o hyn yw ymateb y cyngor i ddisgwyliadau'r siarter iaith, yn arbennig wrth annog cyd-chwarae a threfnu gemau fel 'Mr Cranc' drwy gyfrwng y Gymraeg amser egwyl.

Trwy gymryd rhan frwdfrydig mewn sawl gweithgaredd fel gwardeiniaid cymunedol, mae disgyblion yn datblygu'n aelodau cyflawn a chyfrifol o'u cymuned ac yn ymfalchïo yn eu hardal.

Mae cyfraddau presenoldeb disgyblion wedi gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf o ysgolion tebyg mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf. Mae prydlondeb hefyd yn gyson dda.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae gan yr ysgol gynlluniau gwaith dychmygus, sydd yn tanio brwdfrydedd ac yn ysgogi rhan fwyaf y disgyblion. O fewn y gwaith themâu, fe roddir cyfleoedd cyson i

ddisgyblion gyfrannu eu syniadau am yr hyn yr hoffent ddysgu. Maent yn ymateb yn llawn i ofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r maes llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol. Mae athrawon wedi ymgorffori gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn llwyddiannus i'r cynllunio gan ddarparu cyfleoedd cyson i atgyfnerthu'r medrau hyn a medrau TGCh yn llwyddiannus. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd i ddatblygu medrau ysgrifennu Saesneg ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ysgol yn cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion yn llwyddiannus trwy drefnu ymweliadau a gwahodd ymwelwyr i'r ysgol. Mae gweithgareddau allgyrsiol, fel ymweld â fferm leol, y cwm cyfagos a chastell Caernarfon, yn cyfrannu'n dda at brofiadau'r disgyblion.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg o safon uchel. Trwy greu ethos hynod o gadarnhaol a hyrwyddo cyson yr holl staff, mae'r ddarpariaeth yn ennyn diddordeb a brwdfrydedd yr holl ddisgyblion tuag at yr iaith. Mae'r pwyslais cyson ac effeithiol ar sicrhau ansawdd uchel iaith lafar y disgyblion yn nodwedd gref ac fe gaiff hyn ei adlewyrchu o fewn y dosbarthiadau ac ar y buarth. Mae ystod gyfoethog o brofiadau gwerthfawr er mwyn hyrwyddo ymwybyddiaeth disgyblion o hanes a thraddodiadau Cymru yn eu gwaith thema; er enghraifft, mae'r disgyblion hŷn yn astudio llyfr am Owain Glyndŵr.

Trwy ystod o weithgareddau, mae disgyblion yn cael cyfle i ddysgu sut i fyw mewn modd cynaliadwy. Mae'r cyngor eco yn rhoi cyfleoedd priodol i gydweithio gyda disgyblion ar draws yr ysgol, a thrwy eu gwaith dyddiol, maent yn sicrhau bod yr ysgol gyfan yn ailgylchu gymaint â phosibl ac yn arbed ynni.

Rhoddir cyfleoedd da i ddisgyblion ddatblygu eu hymwybyddiaeth ac ehangu eu gwybodaeth o rannau eraill o'r byd a diwylliannau gwahanol. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn gallu dangos empathi am fywydau pobl mewn gwledydd eraill, fel Lesotho a Botswana.

**Addysgu: Da**

Mae perthynas waith effeithiol yn bodoli rhwng oedolion a disgyblion, sy'n meithrin awyrgylch ddysgu lwyddiannus. Mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol dda ac maent yn cysylltu eu gwersi'n glir â dysgu blaenorol ac yn defnyddio ystod o ddulliau dysgu'n fedrus i ennyn cyfranogiad a diddordeb y disgyblion. Maent yn rhannu amcanion dysgu yn glir ac yn trafod meini prawf llwyddiant gyda disgyblion yn gyson yn ystod y gwersi. Mae gwersi'n fywiog gyda chyflymder da.

Mae athrawon yn holi disgyblion yn dreiddgar ac yn eu hannog i ddefnyddio eu medrau meddwl yn gyson ar draws y cwricwlwm. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol er mwyn i ddisgyblion gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain. Mae cymorthyddion yn cyfrannu'n effeithiol at ansawdd yr addysgu ac yn cynnig cymorth da yn ôl anghenion disgyblion er mwyn iddynt gwblhau eu tasgau. Mae pob aelod o staff yn modelu iaith yn effeithiol iawn.

Gwna athrawon ddefnydd medrus o ystod o strategaethau asesu. Maent yn cynnig adborth llafar defnyddiol yn ystod gwersi. Mae enghreifftiau da o farcio pwrpasol, gyda sylwadau'r athrawon yn ymateb i dargedau unigol ac yn aml yn cyfeirio at wella

medrau'r disgyblion. Mae athrawon yn annog y disgyblion i fanteisio ar y cyfle i wella eu gwaith trwy ymateb i sylwadau’r athro. Mae gweithdrefnau da yn eu lle i ddarparu cyfleoedd i’r disgyblion werthuso eu gwaith eu hunain a gwaith eraill. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion, yn gynnar iawn, yn deall pa mor dda maent yn ei wneud a beth sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau trylwyr ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion, gan gynnwys defnydd pwrpasol o ddeilliannau profion safonol ac asesiadau athrawon. O ganlyniad, mae athrawon yn deall anghenion y disgyblion yn dda ac yn defnyddio’r wybodaeth i osod tasgau priodol er mwyn iddynt symud ymlaen i’r cam nesaf yn eu dysgu.

Mae rhieni’n derbyn gwybodaeth dda am gynnydd eu plant ac mae adroddiadau blynyddol yn bodloni’r gofynion statudol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Mae ansawdd arbennig y gofal, y cymorth a’r arweiniad yn cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau a lles y disgyblion. Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad cymdeithasol disgyblion bregus yn nodwedd ardderchog ac yn hynod lwyddiannus. Mae’r rhaglen gefnogi ar eu cyfer yn arbennig o effeithiol ac yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at godi hunanhyder a datblygu medrau cymdeithasol y disgyblion hyn.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn ardderchog. Gwna’r ysgol ddefnydd effeithiol iawn o wybodaeth asesiadau ffurfiol ac asesiadau athrawon i adnabod y disgyblion yn gynnar a darperir rhaglenni cefnogi hynod lwyddiannus ar eu cyfer. Mae staff yn gofalu bod cynlluniau addysg unigol yn fanwl a thrylwyr ac yn cynnwys barn y rhieni pan fyddant yn eu hadolygu. Dengys system olrhain cynnydd trwyadl yr ysgol fod rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd uwchlaw’r disgwyl dros amser.

Mae’r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus drwy ddarparu gwasanaethau cyd-addoli rheolaidd a thrwy weithgareddau’r cwricwlwm. Mae darpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol o ansawdd uchel ac yn golygu bod disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o werthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch tuag at eraill. Fe amlygir hyn yn glir yn y ffordd maent yn ymdrin â’i gilydd.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf a chefnogol iawn gyda nifer o asiantaethau arbenigol, fel y gwasanaeth cwnsela, cymdeithasol a seicolegol, sy’n sicrhau cymorth ac arweiniad o ansawdd uchel i ddisgyblion a rhieni.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach ac fe gefnogir hyn yn dda drwy werthu amrywiaeth o ffrwythau amser egwyl.

Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae’r ysgol yn gymuned hapus ac iddi ethos cartrefol a chynhwysol. Mae gan bob disgybl fynediad llawn i’r cwricwlwm. Mae polisïau a gweithdrefnau clir yn sicrhau cyfle cyfartal i bawb ac yn hybu cydraddoldeb a dealltwriaeth o amrywiaeth a thegwch yn llwyddiannus. Mae’r ysgol yn annog cydweithrediad, gofal a pharch rhwng oedolion a phlant a rhwng plant a’i gilydd yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae’r disgyblion yn ymfalchïo yn y gymuned hapus a chefnogol sy’n bodoli.

Mae ystod amrywiol o offer ac adnoddau o ansawdd uchel yn yr ysgol, yn enwedig y cyfarpar ar gyfer TGCh. Maent yn cael eu defnyddio’n bwrpasol i sicrhau bod medrau’r disgyblion yn datblygu’n dda. Mae arddangosfeydd yn y dosbarthiadau ac o gwmpas yr ysgol yn creu amgylchedd diddorol sy’n cefnogi’r dysgu’n effeithiol ac yn ennyn balchder y disgyblion yn eu hymdrechion.

Er bod adeilad yr ysgol yn hen, fe wneir defnydd llawn ac effeithiol o bob gofod. Mae’r mannau dysgu allanol wedi eu datblygu mewn modd creadigol iawn er mwyn gwneud defnydd effeithiol o’r gofod sydd ar gael ac i wella profiadau dysgu a chwarae’r disgyblion. Mae safon glanweithdra yn uchel ac mae adeilad a thir yr ysgol yn cael eu cynnal a’u cadw’n briodol.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Rhagorol** |

**Arweinyddiaeth: Rhagorol**

Mae gan y pennaeth weledigaeth gadarn ac ymroddiad cryf i godi safonau a chynnig profiadau ysgogol i bob disgybl. Mae’n credu’n angerddol yng ngeiriad gweledigaeth swyddogol yr ysgol ‘fod gan bob disgybl hawl i serennu am byth’. Mae elfen o ragoriaeth yn y modd mae’n rhannu’r weledigaeth hon yn llwyddiannus gyda’r holl staff, y disgyblion, y rhieni a’r llywodraethwyr. Mae’n sicrhau cyfeiriad clir a chadarn ac, o ganlyniad, mae disgyblion ar draws yr ysgol yn elwa ar brofiadau dysgu dychmygus sy’n cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles.

Mae arweinwyr a phob aelod o staff yn dangos ymrwymiad cryf i ddatblygu a hyrwyddo gwelliannau parhaus a chynaliadwy trwy gynllunio manwl. Maent wedi trefnu cynlluniau arbennig i dargedu disgyblion bregus sy’n cael effaith gadarnhaol iawn ar ddatblygiad unigolion, ac yn ymateb i’w problemau emosiynol a hyrwyddo e’u hunan-werth.

Mae rolau staff a’u cyfrifoldebau wedi eu diffinio'n glir ac yn hyrwyddo gwaith tîm o ansawdd uchel. Mae trefniadau rheoli perfformiad trylwyr yn cyfrannu at welliannau mewn addysgu a dysgu ac yn cynnig cyfleoedd effeithiol i hyrwyddo datblygiad proffesiynol staff.

Mae’r corff llywodraethol yn gydwybodol ac ymroddgar iawn. Mae gan yr aelodau ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol ac o’r meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach. Mae eu hymweliadau cyson â’r ysgol a’u trefniadau monitro yn gymorth i roi cefnogaeth a chyfeiriad strategol ac yn eu galluogi i gyfrannu’n fwy effeithiol at y broses hunanarfarnu.

Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd da wrth gyflwyno mentrau sy'n bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae rôl y disgyblion wrth hybu'r siarter iaith yn gadarn iawn ac yn cael dylanwad arbennig ar yr ysgol gyfan. Mae gallu'r ysgol i gynllunio ar gyfer y medrau ar draws y themâu cwricwlaidd yn elfen gref iawn.

**Gwella ansawdd: Rhagorol**

Mae diwylliant o hunanarfarnu parhaus, sy'n canolbwyntio'n gadarn ar ddeilliannau disgyblion, wedi'i wreiddio'n ddwfn ym mywyd bob dydd yr ysgol. Mae'n broses fyw a llwyddiannus sy'n galluogi'r ysgol i adnabod, monitro a gwerthuso ei pherfformiad yn effeithiol iawn. Mae'r ysgol yn casglu a defnyddio tystiolaeth gadarn o ystod eang o ffynonellau synhwyrol. Mae'r rhain yn cynnwys data perfformiad cymharol yr ysgol, deilliannau o drefniadau asesu mewnol, craffu ar lyfrau ac arsylwi gwersi rheolaidd. O ganlyniad, mae'r staff ac arweinwyr yn adnabod yr ysgol yn drylwyr iawn ac yn meithrin hinsawdd o welliannau parhaus a chyraeddadwy.

Mae trefniant yr ysgol i wrando a chynnwys llais y disgyblion yn elfen gref o'r broses. Nodwedd arbennig yw gwaith y cyngor ysgol i arfarnu'r ddarpariaeth allanol a llunio cynllun gwella. Mae'r camau gweithredu wedi arwain at welliannau amlwg. Mae barn rhieni'n holl bwysig a sicrheir cyfleoedd rheolaidd iddynt ymateb i drefniadau'r ysgol trwy holiaduron ac ymweliadau pwrpasol.

Mae gallu'r corff llywodraethol i herio data perfformiad yr ysgol, ynghyd â chyfraniad blaengar y cyngor ysgol i'r holl brosesau hunanarfarnu a phennu blaenoriaethau ar gyfer gwelliant, yn nodweddion rhagorol. Maent yn sicrhau bod gan yr holl arweinwyr ymwybyddiaeth drylwyr o gryfderau ysgol a'r meysydd sydd angen eu datblygu. Mae hyn yn eu galluogi i herio a dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad.

Mae cymhwysedd a gallu'r pennaeth a'r staff i gynllunio er mwyn sicrhau gwelliant yn ardderchog. Er enghraifft, mae blaenoriaethau diweddar wedi sicrhau safonau addysgu sy'n gyson uchel. Mae'r cynllun datblygu yn deillio'n uniongyrchol o'r broses hunanarfarnu ac yn manylu'n rhesymegol ar y prif flaenoriaethau. Mae'r cynlluniau a'r camau gweithredu yn dyrannu cyfrifoldebau'n glir, gan gynnwys monitro a gwerthuso effeithlonrwydd cyson.

**Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus iawn gydag ystod eang o bartneriaid. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau a lles disgyblion ac yn ymestyn eu profiadau dysgu'n effeithiol.

Mae gan yr ysgol berthynas gref â rhieni a gofalwyr. Maent yn cefnogi'r ysgol yn ymarferol ac yn ariannol. Mae hyn, er enghraifft, wedi arwain at welliant amlwg yn yr ardal allanol ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen. Nodweddion arbennig yw'r prosiectau 'Llofnod Dysgu Teulu' a 'Hwyl y Teulu'. Mae 'Llofnod y Teulu' wedi golygu cyd-drafod a chael cytundeb rhwng yr ysgol a'r cartref ar sut gall rhieni oresgyn anawsterau fel ymrwymiad, medrau, amgylchedd a diwylliant a all fod yn rhwystredig wrth geisio cefnogi eu plant yn y cartref. Mae hyn wedi arwain at gamau gweithredu llwyddiannus sy'n galluogi'r rhieni i gefnogi eu plant yn well. Mae gweithgareddau 'Hwyl i'r Teulu' wedi arwain, er enghraifft, at fagu hyder rhieni i siarad Cymraeg gyda'u plant ac mae'n cyfrannu'n llwyddiannus at fedrau dwyieithog y disgyblion.

Mae'r ysgol yn flaenllaw yn y broses o gyd-gynllunio ac wedi cydweithio'n llwyddiannus gydag ysgolion y dalgylch i gynllunio ar gyfer hybu medrau'r disgyblion. Mae hyn wedi arwain at brofiadau gwerthfawr a safonau da, ac mae'r gwaith bellach wedi ei rannu gydag ysgolion eraill mewn cynhadledd leol.

Mae cysylltiadau gwerthfawr yn bodoli gyda'r cylch meithrin sy'n bwydo'r ysgol. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu'n gyflym iawn wrth gychwyn. Ceir cydweithio effeithiol gydag ysgolion y dalgylch a'r ysgol uwchradd leol i gyd-safoni a chymedroli gwaith disgyblion yn y pynciau craidd. Mae hyn yn sicrhau dealltwriaeth gadarn o'r safonau a ddisgwylir ar ddiwedd cyfnod allweddol 2. Mae rhaglenni pontio effeithiol yn bodoli rhwng yr ysgol a'r ysgol uwchradd gyfagos i sicrhau trosglwyddo esmwyth a didrafferth i'r disgyblion.

Mae'r ysgol wedi cydweithio'n llwyddiannus â'r gymuned, busnesau lleol, a mudiadau cenedlaethol i wella profiadau dysgu'r disgyblion. Mae'r gwaith gyda'r Warden Cymunedol yn arloesol, ac mae'r disgyblion hyn yn ymfalchïo yn eu rôl fel wardeiniaid i helpu oedolion yn y pentref drwy, er enghraifft, gasglu sbwriel, garddio, peintio meinciau a chario negeseuon. Mae hyn wedi arwain at werthfawrogiad a balchder y disgyblion yn eu cymuned.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae nifer priodol o athrawon a staff cynorthwyol sydd â chymwysterau addas i addysgu'r cwricwlwm ac mae'r ymdeimlad o dîm addysgu yn nodwedd gref yn yr ysgol. Mae'r staff cynorthwyol yn cynnig cefnogaeth gadarn ac fe gânt effaith sylweddol ar ddatblygiad a chyrhaeddiad disgyblion, er enghraifft trwy wella canlyniadau rhesymu mathemateg yng nghyfnod allweddol 2.

Mae gan yr ysgol drefniadau cyllidol trylwyr ac mae gwariant wedi'i gysylltu'n dda ag amcanion, targedau a chynlluniau'r ysgol. Er enghraifft, mae'r defnydd a wneir o'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn cael effaith sylweddol ar wella safonau darllen drwy'r ysgol yn ogystal â chefnogi disgyblion mwy bregus. Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro ac yn rheoli gwariant yn ofalus.

Mae trefniadau addas ar gyfer darparu amser i athrawon gynllunio, paratoi ac asesu.

Mae'r ysgol yn gymuned ddysgu gref. Mae ystod eang o gyfleoedd da i staff wella eu medrau a'u gwybodaeth broffesiynol ac i rannu arfer dda gydag ysgolion eraill. Mae hynny'n cael effaith gadarnhaol ar gynllunio ac addysgu yn ogystal â datblygu perthynas werthfawr â rhieni trwy'r cynllun 'Hwyl y Teulu'.

O ystyried y deilliannau da a'r defnydd darbodus o'r cyllid, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6612108 - Ysgol Gynradd Talysarn**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 93 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 23.2 | |
| Grŵp PYD | 3 | (16%<PYD<=24%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 19 | 6 | 16 | 9 |
| | | | | |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 78.9 | 83.3 | 62.5 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 4 | 1 |
| | | | | |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| | | | | |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 19 | 6 | 16 | 9 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 89.5 | 83.3 | 62.5 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 4 | 1 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 26.3 | 50.0 | 25.0 | 44.4 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 3 | 1 |
| | | | | |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 19 | 6 | 16 | 9 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 84.2 | 83.3 | 75.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 4 | 1 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 21.1 | 66.7 | 25.0 | 66.7 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 3 | 1 |
| | | | | |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 19 | 6 | 16 | 9 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 89.5 | 83.3 | 87.5 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 4 | 1 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 63.2 | 83.3 | 50.0 | 66.7 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 2 | 2 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6612108 - Ysgol Gynradd Talysarn**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 93 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 23.2 | |
| Grŵp PYD | 3 | (16%<PYD<=24%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 6 | 8 | 8 | 9 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 88.9 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 3 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 6 | 8 | 8 | 9 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 88.9 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 50.0 | 37.5 | 50.0 | 11.1 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 4 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 6 | 8 | 8 | 9 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 87.5 | 100.0 | 88.9 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 66.7 | 25.0 | 50.0 | 22.2 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 4 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 6 | 8 | 8 | 9 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 88.9 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 50.0 | 12.5 | 25.0 | 11.1 |
| Chwartel meincnod | 1 | 4 | 4 | 4 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 6 | 8 | 8 | 9 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 88.9 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 33.3 | 12.5 | 25.0 | 0.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 3 | 4 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 46 | 46<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 46 | 46<br>100%<br>92% | 0<br>0%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 46 | 46<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 46 | 46<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 46 | 46<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 46 | 46<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 46 | 46<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 46 | 46<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 46 | 45<br>98%<br>91% | 1<br>2%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 46 | 46<br>100%<br>95% | 0<br>0%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 46 | 44<br>96%<br>77% | 2<br>4%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 46 | 46<br>100%<br>84% | 0<br>0%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i’r holiadur i rieni

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 22 | 12<br>55%<br>63% | 8<br>36%<br>34% | 1<br>5%<br>3% | 1<br>5%<br>1% | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| My child likes this school. | 22 | 18<br>82%<br>72% | 2<br>9%<br>26% | 1<br>5%<br>1% | 1<br>5%<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 22 | 11<br>50%<br>72% | 9<br>41%<br>26% | 2<br>9%<br>1% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| My child is making good progress at school. | 22 | 11<br>50%<br>62% | 9<br>41%<br>35% | 0<br>0%<br>3% | 1<br>5%<br>1% | 1 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| Pupils behave well in school. | 22 | 9<br>41%<br>47% | 9<br>41%<br>48% | 1<br>5%<br>4% | 1<br>5%<br>1% | 2 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| Teaching is good. | 22 | 15<br>68%<br>61% | 5<br>23%<br>36% | 1<br>5%<br>2% | 1<br>5%<br>0% | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 22 | 11<br>50%<br>64% | 9<br>41%<br>34% | 2<br>9%<br>1% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 22 | 6<br>27%<br>49% | 11<br>50%<br>43% | 2<br>9%<br>6% | 1<br>5%<br>2% | 2 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 21 | 11<br>52%<br>60% | 6<br>29%<br>35% | 0<br>0%<br>4% | 2<br>10%<br>1% | 2 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 22 | 12<br>55%<br>60% | 9<br>41%<br>38% | 1<br>5%<br>2% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| My child is safe at school. | 22 | 16<br>73%<br>66% | 3<br>14%<br>32% | 0<br>0%<br>2% | 2<br>9%<br>1% | 1 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs’. | 22 | 11<br>50%<br>55% | 7<br>32%<br>39% | 0<br>0%<br>4% | 2<br>9%<br>1% | 2 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child's progress. | 22 | 9<br>41% | 9<br>41% | 2<br>9% | 1<br>5% | 1 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 49% | 41% | 9% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 22 | 14<br>64% | 5<br>23% | 0<br>0% | 3<br>14% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 5% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 22 | 8<br>36% | 11<br>50% | 0<br>0% | 2<br>9% | 1 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 48% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 22 | 13<br>59% | 7<br>32% | 0<br>0% | 2<br>9% | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 58% | 40% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 22 | 7<br>32% | 8<br>36% | 0<br>0% | 2<br>9% | 5 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 52% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 22 | 13<br>59% | 7<br>32% | 0<br>0% | 2<br>9% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 54% | 39% | 6% | 1% | | |
| The school is well run. | 22 | 12<br>55% | 7<br>32% | 1<br>5% | 2<br>9% | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 34% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Mervyn Lloyd Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Hazel Hughes | Arolygydd Tîm |
| David Owen Jenkins | Arolygydd Lleyg |
| Buddug Mai Bates | Arolygydd Cymheiriaid |
| Glenda Evans | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.